**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1286
Ein cyf/Our ref EM/02175/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mai ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch sicrhau bod triniaethau a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod COVID-19.

Fel Llywodraeth, rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu'r GIG rhag effaith y pandemig byd-eang hwn. Gwnaethom gytuno yn gynnar iawn ar y gwasanaethau hanfodol yr oedd angen eu darparu yn ddi-dor cyhyd ag y bo modd. Wrth reswm, roedd gofal canser ymhlith y gwasanaethau hyn. Bryd hynny, bu Prif Weithredwr GIG Cymru yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddiogelu gwasanaethau canser drwy ei waith gyda'r byrddau iechyd yng Nghymru. Gwnaeth fy rhagflaenydd yn y rôl hon a finnau sicrhau cyllid sylweddol newydd i'r GIG er mwyn cefnogi gwasanaethau, ac yn fwy eang na hynny, rydym yn buddsoddi cannoedd o filiynau o bunnau mewn hyfforddi staff newydd, gan gynnwys arbenigwyr ym maes gofal canser, ac mewn cyfarpar newydd a ddefnyddir i wneud diagnosis o ganser ac i'w drin.

Fodd bynnag, mae'n wir, yn anffodus, wrth i'r pandemig waethygu, fod tarfu wedi bod ar y capasiti i ddarparu rhai triniaethau canser, a bod llawer o gleifion wedi dewis gohirio triniaeth ar yr adeg hon. Mae hyn yn debygol o gael effaith ar ganlyniadau i gleifion canser.

Rwyf wedi pennu gwaith adfer mewn gwasanaethau canser yn flaenoriaeth cynllunio i'r GIG. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gynlluniau ymddiriedolaethau a byrddau iechyd ganolbwyntio ar waith adfer mewn gwasanaethau canser. Mae hyn ar ben y camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau canser a welir yn ein Rhaglen ar gyfer Trawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill ac sydd ar gael yn: Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros | LLYW.CYMRU

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwyddom er mwyn gwella canlyniadau i gleifion canser fod angen inni sicrhau bod canser yn cael ei ganfod yn gynharach, a bod pobl yn gallu manteisio ar archwiliadau diagnostig, triniaethau cyflym ar sail llwybrau gofal safonol, gwaith gwell i gynllunio'r gweithlu a chapasiti gweithlu gwell, gofal mwy integredig diolch i system gwybodaeth canser newydd, gwaith i ad-drefnu gwasanaethau clinigol bregus ac, yn hollbwysig, cymorth canolog gwell o ran arbenigedd rhaglen a data.

Rydym yn annog pobl i godi llais os bydd ganddynt symptomau canser posibl, ac rydym yn gweithio drwy ein rhaglenni diagnostig cenedlaethol i sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar wasanaethau delweddu ac archwiliadau endosgopig mewn modd amserol yn well, gan ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol a chan ganolbwyntio ar sicrhau bod gweithgarwch trin canser yn cynyddu.

Mae gwasanaethau'r GIG wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r llwybrau er mwyn eu cyflymu, ac rydym wedi pennu llwybrau a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ganser y dylai pob corff y GIG fod yn ceisio eu darparu. Sicrhawyd cyllid i staff ychwanegol mewn byrddau iechyd er mwyn trefnu llwybrau i gleifion sy'n cynnwys nifer o dimau rhwng y camau atgyfeirio, gwneud diagnosis, rhoi triniaeth a gwaith dilynol. Mae timau cymorth i raglenni wedi cael eu hanfon i fyrddau iechyd i'w helpu i aildrefnu eu gwasanaethau er mwyn darparu'r llwybrau cenedlaethol. Mae meddalwedd ddigidol newydd yn cael ei rhoi ar waith er mwyn helpu rheolwyr gweithredol ar gyfer canser i reoli ac olrhain rhestrau aros cleifion. Mae hyfforddiant newydd yn cael ei ddatblygu i gefnogi pawb sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu llwybrau canser er mwyn deall yn well sut y dylid gweinyddu llwybrau mor gymhleth, sy'n cynnwys nifer o dimau.

Hyderaf y bydd y cyfuniad hwn o ffocws, ymdrech a chymorth sy'n cael ei roi ar waith yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau canser yn y dyfodol. Gellir gweld ein dull ehangach o wella ansawdd mewn gwasanaethau canser yn: https://llyw.cymru/y-datganiad-ansawdd-ar-gyfer-canser-html

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services